| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Llawr y Dref, Llangefni – Achos Busnes**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd:**<br><br>**• Cytuno i newid dynodiad unedau 1- 4 a 6 - 29 yn Llawr y Dref, Llangefni o fod yn gynllun tai gwarchod i bobl 60+ oed i gynllun tai anghenion cyffredinol yn unol ag Opsiwn 1 yr adroddiad.**<br>**• Bod mân waith yn cael ei wneud i ailfodelu gofod mewnol yr unedau i sicrhau cymaint â phosib o arwynebedd llawr mewnol yn ogystal â gosod ceginau newydd yn yr unedau i'w gwneud yn fwy deniadol i denantiaid.**<br>**• Gwella'r mannau cymunedol o fewn Blociau A a B i gynnwys darparu ystafell gymunedol a gwella ac uwchraddio cyfarpar diogelwch tân, yn ogystal â gwneud gwaith allanol megis gwaith paentio a thirlunio'r ardd er mwyn gwella golwg allanol yr adeilad.**<br>**• Cynnig dewislen o ddewisiadau ar gyfer dodrefnu'r fflatiau sy'n werth hyd at £500 ar gyfer tenantiaid sy'n symud i mewn i'r cynllun fel eu cartref cyntaf, neu dalu am gostau symud unrhyw denant sy'n symud i mewn i'r cynllun oherwydd eu bod wedi eu heffeithio gan Feini Prawf Maint y Sector Cymdeithasol (y cyfeirir atynt fel y dreth ystafell wely) yn eu cartref presennol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo ailddynodi'r unedau yn Llawr y Dref** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |